

Newid Byd *gan Lisa Tomos*

Arallgyfeirio 1

[Mae'r geiriau sydd wedi eu tanlinellu yn yr eirfa isod, yn ôl trefn yr wyddor. Cofiwch fod rhai o'r geiriau wedi eu treiglo.]

arallgyfeirio	<i>diversify</i>	gwarantu	<i>guarantee</i>
argyfwng	<i>crisis</i>	gwenith	<i>wheat</i>
arloeswyr	<i>pioneers</i>	gwrtaiith	<i>fertilizer</i>
brwdfrydedd	<i>enthusiasm</i>	haidd	<i>barley</i>
canfod	<i>realise, perceive</i>	hybu	<i>encourage</i>
cwtogi	<i>cut, limit</i>	nerth bôn braich	<i>muscle power</i>
cymorthdal	<i>subsidy</i>	pla-leiddiad	<i>pesticide</i>
dirwasgiad	<i>depression</i>	oelow had rêp	<i>rape seed oil</i>
eidion	<i>beef</i>	rhedyn	<i>bracken</i>
ennill	<i>win</i>	ÿd	<i>grain</i>
glew	<i>valiant, vigorous</i>		

BETH FYDD DYFODOL FFERMYDD CYMRU

HWN?

neu

HWN?



*Ar arferion Cymru gynt
Newid ddaeth o rod i rod;
Mae cenhedlaeth wedi mynd
A chenhedlaeth wedi dod.*

*Ystafell Cynddylan ys tywyll heno,
Heb fyw, heb frefu.
Dysgwn wers, neu wylwn wedy.*

Ceiriog

Efelychiad o Ganu Heledd

Ym mis Mai 1999 cyhoeddodd y Western Mail arolwg gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr oedd yn dangos fod dau ffermwr allan o bob tri wefi arallgyfeirio er mwyn sicrhau eu dyfodol. Dangoswyd hefyd fod yr argyfwng economaidd yn y diwydiant amaeth yn golygu fod rhai ffermwyr yn derbyn eu holl incwm bron o ffynonellau amgen na ffermio.

Ers 1999, mae'r duedd a'r angen wedi cynyddu a'r mater yn parhau'n bwnc llosg ymysg

ffermwyr ac aelodau'r Llywodraeth.

Pam mae amaethu mewn argyfwng?

Beth yw cymhorthdal?

Pam mae'n effeithio ar ffermydd traddodiadol Cymru?

Daeth dau ryfel byd a dirwasgiad i daro amaethu ym Mhrydain yn galed pan oedd mecaneiddio ond yn dechrau. Hyd at 1940, dim ond ambell fferm oedd â thractor; ceffylau a nerth bôn braich oedd yn gwneud y gwaith i gyd. Ni thyfodd maint y cnydau fawr rhwng 1800 a 1940, ond bu newid mawr o hynny ymlaen.

Er mwyn cael ffermwyr i gynhyrchu mwy o fwyd, cychwynnodd y Llywodraeth gynllun gwarantu prynu cynnyrch. Golygai hyn nad oedd raid i ffermwyr boeni am farchnata eu cynnyrch, gan y byddai'r Llywodraeth yn sicrhau y byddent yn cael elw derbyniol. Gellid cael y cymorthdal hwn ar gyfer popeth, o wenith a haidd i gig oen ac eidion.

Gyda datblygiadau technolegol peiriannau hwylus, gwrtaith parod a phla-leiddiaid daeth ffermwyr i gynhyrchu llawer mwy. Erbyn heddiw, gellir cael 12 tunnell o wenith o bob hectar, o gymharu â 3 tunnell ym 1940.

Erbyn y 1970au cynhyrchai Ewrop ormod o lawer, a thyfodd y mynyddoedd yd ac ymenyn. Gosod y "cwota" ar laeth ym 1984 oedd y neges gyntaf i ffermwyr fod rhaid troi'r cloc yn ôl a chynhyrchu llai. Erbyn hynny, yr oedd llai o alw am gynnyrch traddodiadol fel llaeth a chig, ond o ystyried ymdrechion glew y ffermwyr i wneud eu ffermydd mor effeithiol â phosib, hawdd deall nad oeddent yn canfod gofynion newydd eu cwsmeriaid.

Mae pob llywodraeth yn Ewrop yn ceisio cwtogi gwariant ar amaethu sydd yn hybu cynhyrchu bwydydd diangen. Yn Seland Newydd, daeth pob cymorthdal i ben, a rhaid i ffermwyr werthu ar y farchnad agored. Nid yw cig na chynnyrch arall tebyg yn denu prisiau uchel mwyach. Codwyd bwanod am *salmonella* mewn wyau, *listeria* mewn caws a *BSE* mewn eidion, tra mae'r archfarchnadoedd yn mynnu nwyddau rhad. Y canlyniad yw fod incwm ffermydd wedi gostwng yn ddramatig.

Ond, mae mwy nag un ffordd o wneud elw o fferm, er enghraifft trwy newid i gynnyrch organig sydd â gofyn mawr amdano. Rydym i gyd wedi clywed am "Wely a Brecwast", safleoedd i bebyll a charafanau, merlota a choedwigaeth, ond beth am droi rhedyn yn wrtaith, cyrsiau golff neu saethu colomennod clai? Mentrau eraill yw ffermio pysgod, tyfu bwydydd arbenigol fel madarch "shitake", magu ceirw neu dyfu cnydau tanwydd fel rêp had oel. Gall ychwanegu gwerth at gynnyrch fferm fel darparu sglodion parod yn hytrach na thatws syml fod yn llwyddiannus iawn. Hefyd, medr ffermwyr ddod at ei gilydd i brosesu, i bacio ac i farchnata'u cynnyrch i gael y gorau o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig.

Mae digon o syniadau ar led, mae digon o bosibiliadau ond cael dychymyg, felly rhaid ennill brwdfrydedd ymysg arloeswyr cefn gwlad y ffermwyr eu hunain.

Arallgyfeirio 2

"MENTER ARFRYN" – GOLYGFA DDYCHMYGOL gan Meira Shakespear

Darllenwch yr olygfa isod sy'n digwydd un prynhawn Sul yn ffermdy dychmygol Arfryn rhywle yng Nghymru. Unedau teuluol yw'r rhan fwyaf o ffermydd Cymru, gydag un neu fwy o'r plant yn cymryd yr awenau pan ddaw'r amser i'r rhieni ymddeol. Felly, mae arallgyfeirio'n aml yn fater i deulu cyfan i'w ystyried. Sylwch ar **safbwynt** ac **agwedd** y cymeriadau. (*Os ydynt yn siarad yn wahanol i chi, gallwch ail-ddrafftio'r sgwrs yn y dafodiaith sy'n naturiol i chi.*)

Dad: Felly, dyna ni. Ffermwr ydw i, a ffermwr rydw i am aros, ond mae rhaid i ni wneud rh'wbeth neu mi fydd hi wedi canu arnon ni. Pawb â'i syniadau, 'ta.

Mam: Dwi ddim eisio i neb dd'eud gair am Wely a Brecwast! Ma' 'na ddigon o rheiny'n yr ardal 'ma'n barod, a does gin i ddim awydd treulio mwy o amser yn newid dillad gwely a golchi a g'neud brecwast! Ond ...

Pawb: Ia, Mam?

Mam: Mi roeddwn i'n hoff iawn o ofalu am yr ieir ers talwm ac mae wya' "free range" organig yn gwerthu am bris da.

Wil: Ew, "Wyau Clwcs Ceridwen!"

Mam: Paid â bod yn tsîci, Wilsyn! Er, mae o'n enw reit dda ... reit fachog ... digon digri i dynnu sylw.

Dad: Dyna un dda, Cer. Ac ma'n well gin i geiliog na chloc larwm yn y bora'. Rhywun arall?

Meg: Cig oen organig, Dad ... defaid fel rŵan ond dim byd ond bwyd iach, naturiol. Mae 'na bris uwch o lawer am ŵyn felly.

Mam: Ond bwyd iach, naturiol ma'r defaid yn 'i gael p'run bynnag!

Meg: Ia, wn i, ond mae 'na ryw gofrestr neu dystysgrif yn profi hynny i bobl sy'n edrach allan amdano fo ... a dyna sut ma' cael y pres ... fath ag efo'r wyau, Mam.

Dad: Ma' hi'n iawn, Cer, ac ma' hi werth edrach i mewn i'r manylion. Dei, be' sy gin ti i gynnig? Ti ydy ymenydd y teulu 'ma i fod, efo dy gompiwtars a'r holl Faths 'na.

Dei: Cadw estrys? Cig iachus, ffasiynol ... a **drud**. Dwi 'di clywad am fferm estrys yng Nghymru'n rh'wla.

Dad: O'r achlod, be nesa'? Be' ddeudai dy daid?

Dei: Wel, hidiwch b'efo, nid fo sy'n gorfod rhedeg Arfryn rŵan, ac mae o'n berffaith hapus yn ei fyngalo bach braf i lawr yn y llan, yn ddigon handi i'r capal ar fore Sul.


Wil: Ac i'r Llew Coch ar nos Sadwrn!

Mam: Wilsyn, mae o wedi'i hen ennill ei seibiant, felly taw.

Dei: Wel, 'rhoswch chi funud. Beth am *Antur Arfryn*? "Wild West Treks" ... addas i bob oed ... pleser crwydro ond dim poen coesau.

Dad: Dim stablau merlota i fi! Dyn tractor ydw i ... ond coesa' ôl a llond ceg o ddannadd? Dim ffiars o beryg! A dim lamas chwaith!

Dei: Ond Dad, **cwods**! Maen nhw'n hawdd eu trin, dim isio bwyd yn y gaeaf, dim cnoi na chicio, a chyfle i fisityrs heb brofiad fwynhau'r mynydd yn saff. Ma'




`na ddigon o ferlota o gwmpas, p'un bynnag, felly beth am fod yn wahanol?
Cwod-lota!

Meg: Ti'n iawn, Dei. Ma' `na gymaint o bobl f'asa'n talu am dipyn o antur heb boeni am fentro na chynllunio drostyn'nhw'u hunain.

Mam: Dyna syniad gwych. Meddylwch am yr yr holl bobl sy' ddim mewn iechyd i gerdded llawer ... neu sy'n ofni merlod, fel ti, Ger! Mi fasa nhw wrth 'u bodda'. Dangos adar a phlanhigion diddorol iddyn nhw ... ac ella' cynnig picnic fferm da yn y pris hefyd.

Wil: Ond dim gwin, Mam. Peidiwch da chi â rhoi gwin efo'r picnic neu meddylwch am y sgandal yn y papur ... *Gerallt Arfryn yn gaib ar gefn cwod!*

CWODLOTA
antur newydd orau Cymru!



arweinwyr profiadol
hyfforddiant syml
addas i bawb

Gyda Geraint Puw a'r teulu - Arfryn, Tregurig: Ffôn: 895934

BWYD Y BRYNIAU - picnic blasus yn rhan o'r pris

Ewch ati i lunio golygfa debyg gyda chymeriadau a syniadau o'ch dewis chi.

Rhaid cynnig syniadau, mynegi barn a pherswadio eraill i gytuno â chi. Cofiwch: efallai bydd gofyn i chi gyflwyno'ch sgets o flaen y dosbarth, felly ceisiwch fod yn fachog ac yn wreiddiol.